

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCYPE@cynulliad.cymru

23 Ionawr 2018

Annwyl Lynne,

Pan fues i gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Rhagfyr, dywedais y byddwn i'n darparu manylion a dyddiadau'r cyfnodau gwirio allweddol cyn i'r cwricwlwm newydd gael ei ryddhau ym mis Ebrill 2019 ar ffurf drafft er mwyn cael adborth arno.

Yn y cyfnodau gwirio:

- Bydd pob grŵp Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) yn rhannu ei waith a'i syniadau diweddaraf gyda Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu. Rôl y grŵp hwn yw rhoi tystiolaeth annibynnol, herio mewn ffordd synhwyrol a hyderus, a chefnogi'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi.
- Caiff gwaith a syniadau diweddaraf y grwpiau MDPH hefyd yn cael eu rhannu â'r grwpiau arbenigol canlynol er mwyn cael adborth. Mae'r grwpiau hyn yn sicrhau ansawdd yn ystod y broses ddatblygu:
 - Y Grŵp Cynghori Annibynnol (sy'n cael ei gadeirio gan yr Athro Graham Donaldson);
 - Panel Arbenigol y Cyfnod Sylfaen;
 - Y Cyngor Cenedlaethol Digidol a Dysgu;
 - Y Panel Llythrennedd a Rhifedd.
- Bydd grwpiau MDPH hefyd yn rhannu eu cynigion gydag arbenigwyr i gael eu hadborth, a hynny ar sail maes dysgu a phrofiad cyfan a/neu fesul disgyblaeth.
- Ar ôl pob cyfnod gwirio, caiff diweddariad ei gyhoeddi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wele fanylion y cyfnodau gwirio:

Cyfnod Gwirio 1: Cyfarfod Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu, 5 a 6 Mehefin 2017

Darparodd pob grŵp MDPH bapur i Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu yn amlinellu'r canlynol:

- Sut y mae'r maes dysgu a phrofiad yn cyfrannu at y pedwar diben;
- Cwmpas a ffiniau'r maes dysgu a phrofiad;
- Sut orau i gyflwyno gwahanol gydrannau'r maes dysgu a phrofiad;
- Dealltwriaeth o'r lefelau penodoldeb a ragdybir yn y maes dysgu a phrofiad;

Canlyniad: Rhoddodd Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu adborth ac roedd yn hapus â'r cynnydd a'r ffordd yr oedd y gwaith yn mynd rhagddo. Cyhoeddwyd crynodeb gweithredol o'r adroddiadau Maes Dysgu a Phrofiad a'i rannu â'r sector addysg.

Dolen i'r diweddariad: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/170707-new-curriculum-for-wales-story-so-far-cy.pdf>

Cyfnod Gwirio 2: Cyfarfod Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu, 4 a 5 Rhagfyr 2017

Mae pob grŵp MDPH wedi datblygu'r canlynol:

- Datganiad yn diffinio 'beth sy'n bwysig' yng nghyd-destun y maes dysgu a phrofiad.
- Teitlau cychwynnol ar gyfer llinynnau 'beth sy'n bwysig' – gan gynnwys y sail resymegol, hynny yw pam fod y cysyniad 'yn bwysig', fel cyd-destun i'r datganiad.
- Cysyniad 'beth sy'n bwysig' sydd wedi'i ddatblygu ymhellach er mwyn rhoi syniad o feddyliau'r grŵp maes dysgu a phrofiad, gan gynnwys sôn yn gryno am ddilyniant.

Canlyniad: Rhoddodd Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu adborth ar ddiben a rôl y datganiadau 'beth sy'n bwysig'. Roedd hyn er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniad cyn dechrau'r gwaith ar ddilyniant mewn perthynas â'r datganiadau hyn. Hefyd, rhoddodd gyngor i bob grŵp maes dysgu a phrofiad ar fireinio a datblygu'r datganiadau 'beth sy'n bwysig', a'r naratifau ategol. Caiff diweddariad ar hyn ei rannu tua diwedd mis Ionawr.

Cyfnod Gwirio 3: Cyfarfod Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu, 30 Ebrill a 1 Mai 2018

- Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill, bydd pob maes dysgu a phrofiad yn gweithio gyda phrosiect CAMAU i lunio fframweithiau dilyniant ym mhob maes dysgu a phrofiad, o 3-16 oed. Mae prosiect CAMAU (Prifysgol Glasgow a [Phrifysgol y Drindod Dewi Sant](#)) yn rhoi cymorth academaidd ac yn darparu ymchwil

rhyngwladol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dilyniant ym mhob maes dysgu a phrofiad.

- **Bydd Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu yn adolygu'r cynnydd.**

Cyfnod Gwirio 4: Cyfarfod Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu, Gorffennaf (rhith-gyfarfod)

- Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf, bydd arloeswyr dysgu proffesiynol yn gweithio, yn annibynnol ar y broses ddylunio, gyda CAMAU i brofi'r datganiadau 'beth sy'n bwysig' a'r fframweithiau dilyniant yn eu hysgolion.
- Gyda CAMAU, bydd arloeswyr y cwricwlwm hefyd yn datblygu ac yn mireinio'r fframweithiau dilyniant ymhellach ac yn datblygu deilliannau cyflawniad drafft fel cyfeirbwyntiau dilyniant.
- **Bydd Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu yn adolygu'r cynnydd.**

Cyfnod Gwirio 5: Cyfarfod Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu, 13 a 14 Tachwedd 2018

- Cyfarfod arall i adolygu cynnydd.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education